

Merched y Wawr – Cangen Llannau'r Tywi - Tachwedd 2017

Cyfarfod anffurfiol gafwyd ym mis Hydref, wrth i'r aelodau fwynhau noson bowlio deg yn Nhreloan. Cafwyd noson yn llawn hwyl a sbri gyda ambell seren gudd yn disgleirio.

Ym mis Tachwedd, yn Nhafarn y Farmers, Llanybri, pleser oedd croesawu Eirwen Robinson o Lanfyrnach, gwraig fferm sy'n ymddiddori mewn gwaith cwiltio. Dangoswyd i ni'r offer angenrheidiol a'r gwahanol ddefnyddiau sydd ar gael wrth gynllunio a gwneud cwiltiau patrymog, lliwgar.

Wrth iddi ddangos y cwiltiau hyfryd, clustogau, ac addurniadau Nadolig ar gyfer y bwrdd a'r goeden i ni, anodd credu mai ond ers 2009 mae hi wedi bod yn cwiltio. Enillodd yn Sioe Llanelwedd gyda'i cracyr Nadolig a phwysleisiodd y cynllunio manwl a'r gwnïo gofalus oedd ei angen i gyrraedd y safon. 'Roedd dylanwad y fferm i'w weld yn rhai o'r eitemau a phob un darn yn wledd i'r llygad. Diolchodd Kathy Hyde iddi am noson arbennig o ddiddorol.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Llanybri ar Ragfyr 20fed gyda Mia Peace yn ein diddanu.